

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

ENIDWEN

Yr ymgyrch hir a chwerw i achub neuadd breswyl Pantycelyn, a'r '[g]ymuned fendigedig' o fyfyrwyr sy'n byw yno, yw testun cerdd ENIDWEN. Dyma gerdd uniongyrchol, ddi-flewyn-ar-dafod gan un sy'n gweld y frwydr i achub y neuadd fel brwydr y bychain yn erbyn y grymoedd mawrion, yn gweld y myfyrwyr yn Ddafydd wrth Oliath y Brifysgol, ond efallai fod yr uniongyrchedd hwn yn peri i'r gerdd dueddu i fod yn bregethwrol ar adegau. Prif wendid y gerdd yw'r modd y newidir y delweddau'n gyson, o'r 'morgrug' i'r 'siarcod', o'r 'wawr' i'r 'copa' i'r 'angor'; mae'r holl ddelweddau hyn yn gwbl

briodol ond ni ddatblygir yr un ohonynt yn ddigon hir i fod yn rymus. Dylai ENIDWEN geisio arfer mwy o gynildeb, gan awgrymu mwy drwy ddweud llai.